**Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**CLA433 - Rheoliadau Cynnwys Sylffwr mewn Tanwydd Hylifol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2014**

**Gweithdrefn**: Negyddol

Mae'r rheoliadau hyn yn gweithredu gofynion newydd yr UE ar gyfyngu cynnwys sylffwr mewn tanwydd hylifol. Mae'r rheoliadau'n diwygio'r gyfraith bresennol trwy nodi eithriadau, a gwaharddiadau, penodol ar y defnydd o rai mathau o danwydd sy'n cynnwys sylffwr. Hefyd, mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol wirio'r defnydd o'r fath danwydd trwy samplo cyson.

Gwneir y rheoliadau hyn ar sail cyfansawdd, ac mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn cytuno bod hyn yn addas.

## 1. Craffu Technegol

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2(ix) (sef, nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg).

- Drafftir y rheoliadau yn Saesneg yn unig. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn datgan nad yw ei Chynllun Iaith Gymraeg yn mynnu bod y rheoliadau'n cael eu cyfieithu. Felly, o dan Reol Sefydlog 15.4, nid yw Llywodraeth Cymru yn ystyried bod cyfieithu'r rheoliadau'n addas nac yn rhesymol ymarferol.

## 2. Craffu ar Rinweddau

Nodwyd un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 (ii) (sef, ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad).

Mae'r Nodiadau Esboniadol yn datgan bod copi o nodyn trawsddodiad ('transposition notice', sef nodyn i egluro sut mae'r gyfraith berthnasol yr UE yn cael ei thrawsddodi'n rhan o gyfraith ddomestig) ar gael o

DEFRA, a bod copïau wedi'u rhoi yn y ddau Dŷ yn Senedd San Steffan. Fe fyddai'n ddefnyddiol pe bai Llywodraeth Cymru wedi darparu copi o'r nodyn trawsddodiad gyda'r offeryn, er mwyn hwyluso gwaith craffu'r Pwyllgor.

## 3. Ymateb y Llywodraeth

Cafodd gofynion Cyfarwyddeb y Cyngor 1999/32/EC mewn perthynas â chynnwys sylffwr mewn tanwydd hylifol ('y Brif Gyfarwyddeb') eu trosi ar sail gyfansawdd drwy Reoliadau Cynnwys Sylffwr mewn Tanwydd Hylifol (Cymru a Lloegr) 2007 (OS 2007/79) ('y Prif Reoliadau'). Mae'r Rheoliadau cyfansawdd 2014 hyn yn diwygio nifer o ddarpariaethau yn y Prif Reoliadau er mwyn trosi gofynion Cyfarwyddeb 2012/33/EU sy'n diwygio Cyfarwyddeb y Cyngor 1999/32/EU mewn perthynas â chynnwys sylffwr mewn tanwydd hylifol.

Mae sicrhau'r newidiadau hyn drwy offeryn cyfansawdd, a wnaed gyda'r Ysgrifennydd Gwladol, yn gyson gyda'r dull gweithredu blaenorol pan gafodd y Brif Gyfarwyddeb ei throsi yng Nghymru a Lloegr. Mae hefyd yn lleihau'r anghyfleustra a'r dryswch posibl i'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan y Rheoliadau. Mae'r Rheoliadau cyfansawdd hyn yn gymwys yng Nghymru a Lloegr ac yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd San Steffan. Yn unol â hynny, nid yw'n cael ei ystyried yn rhesymol ymarferol i'r Offeryn hwn gael ei osod na'i wneud yn ddwyieithog.

Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i sicrhau bod memorandwm (a elwir yn 'nodyn trosi') ar gael i Senedd San Steffan, ar y cyd â deddfwriaeth sy'n rhoi effaith i Gyfarwyddebau Ewropeaidd, ac eithrio lle byddai'r ymdrech ofynnol yn anghymesur o ran y manteision posibl i'r darllenydd. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu dull gweithredu o'r fath, ac mae'n ystyried bod y Memorandwm Esboniadol, ynghyd â'r Nodyn Esboniadol, ar gyfer y Rheoliadau hyn yn darparu digon o fanylion ynghylch trosi. Bydd Llywodraeth Cymru, fodd

bynnag, wrth drosi ar sail gyfansawdd yn y dyfodol yn ymdrechu i ddarparu copïau o'r nodiadau trosi i'r Pwyllgor pan fyddant ar gael i ni.

Atodir copi o'r nodyn trosi y cyfeirir ato yn y Nodiadau Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau cyfansawdd hyn, er gwybodaeth i'r Pwyllgor.

## 4. Ystyriaeth y Pwyllgor

Ystyriodd y Pwyllgor yr offeryn ac ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 15 Medi 2014.

Mae’r Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad i’r Cynulliad yn unol â’r pwyntiau adrodd yn adrannau 1 a 2 uchod.